O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 678 (Cy. 91)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *2 Mawrth 2012* |
| *Yn dod i rym* | *12 Mawrth 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd a chyfyngu ar y traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arni.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Mawrth 2012. Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle"*) yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 20.00 o'r gloch ar 12 Mawrth 2012 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A465 yng Nghylchfan Dowlais Top ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd ar gyflymder uwch na 40 milltir yr awr yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1, na pheri na chaniatáu i gerbyd fynd ar gyflymder o'r fath yn y darnau hynny.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd ar gyflymder uwch na 10 milltir yr awr yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2, na pheri na chaniatáu i gerbyd fynd ar gyflymder o'r fath yn y darnau hynny.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd, na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio, ac eithrio cerbyd esempt, yn y fath fodd ag y bo'n goddiweddyd unrhyw gerbyd arall yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2, yn ystod yr adegau pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar hyd y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2

**7.**Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny yn weithredol.

**8.** Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 12 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 2 Mawrth 2012

*G R Morgan*
**G MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy o ran Cymru gan Weinidogion Cymru.

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

### TERFYN CYFLYMDER 40 MYA DROS DRO

i) Y darnau hynny o gerbytffyrdd y gefnffordd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin, sy'n ymestyn o'u cyffyrdd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Dowlais Top i gyfeiriad Ystad Pant, sef pellter o tua 1600 metr.

ii) Y darn cyfan o gerbytffordd gylchredol Cylchfan Dowlais Top nad yw'n ddarostyngedig i'w gau dros dro fel a bennir yn Atodlen 3 (i).

## ATODLEN 2

### TERFYN CYFLYMDER 10 MYA DROS DRO A GWAHARDD GODDIWEDDYD

i) Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt lle mae'n ymwahanu oddi wrth gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin, sef pwynt 100 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Dowlais Top, hyd at bwynt ar y gerbytffordd gylchredol honno 20 metr cyn yr allanfa i gylchfan yr A465/A4060.

ii) Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 55 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Dowlais Top (wrth yr allanfa o Garej Texaco) hyd at bwynt yn ei chyffordd â Chylchfan Dowlais Top.

## ATODLEN 3

### GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO

i) Y darn hwnnw o gerbytffordd gylchredol Cylchfan Dowlais Top sy'n ymestyn o bwynt yn ei chyffordd â'r slipffordd ymadael tua'r gorllewin hyd at bwynt yn ei chyffordd â'r slipffordd ymuno tua'r dwyrain, sef pellter o tua 75 metr.

ii) Hyd cyfan y gilfan ger y gerbytffordd tua'r dwyrain, i'r gorllewin o Gylchfan Dowlais Top.

iii) Hyd cyfan y gilfan ger y gerbytffordd tua'r gorllewin, i'r gorllewin o Gylchfan Dowlais Top.